**CANLLAW YMARFEROL O RAN CRAFFU**

**Beth yw Craffu?**
Crëwyd swyddogaethau Cabinet a Chraffu o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

Mae'r Cabinet yn gwneud y rhan fwyaf o benderfyniadau pwysig y Cyngor tra bod swyddogion y Cyngor yn cymryd y mwyafrif o'r penderfyniadau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor llawn yn parhau i fod yn gorff goruchaf y Cyngor ac mae'n gyfrifol am bennu fframwaith polisi allweddol y Cyngor, e.e. gosod y gyllideb a phennu treth y cyngor ac ati.

Mae'r Pwyllgorau Craffu yn cynnwys Aelodau nad ydynt yn aelodau o'r Cabinet ac yn gyfrifol am wneud y rhai sy'n gwneud penderfyniadau (Swyddogion y Cabinet a'r Cyngor) yn atebol, ac yn cynorthwyo wrth ddatblygu polisïau a gwasanaethau gwell i'r Cyngor. Gallant archwilio unrhyw swyddogaeth y Cyngor, neu ystyried unrhyw fater, sy'n effeithio ar y gymuned ehangach.

Mae craffu yn galluogi Aelodau i ddylanwadu ar benderfyniadau a gymerir gan y Cabinet a sicrhau bod barn ac anghenion pobl leol yn cael eu hystyried.

**Beth yw nodau Craffu?**
- I helpu gwella perfformiad y Cyngor.
- I helpu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau, sy'n sensitif i anghenion lleol, trwy gynnwys pobl leol.
- I sicrhau bod y dull gwneud penderfyniadau yn glir, yn dryloyw ac yn atebol.
- I ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a'r gymuned ehangach wrth wneud penderfyniadau.

**Pam mae Craffu yn bwysig?**
- Mae'n gwneud gwneuthurwyr penderfyniadau yn atebol.
- Mae'n herio a gwella perfformiad.
- Mae'n cefnogi cyflawniad gwerth am arian.
- Mae'n herio sut mae pethau'n cael eu gwneud.
- Mae'n dylanwadu ar benderfynwyr trwy argymhellion ar sail tystiolaeth.
- Mae'n dod â thystiolaeth a barn rhanddeiliaid, defnyddwyr a dinasyddion.
- Mae'n ymgymryd â chraffu cyn/ar ôl penderfyniadau cynigion y Cabinet.

Mae Pwyllgorau Craffu, yn ogystal â gwneud awgrymiadau ar gyfer gwelliannau, yn cydnabod arfer a pherfformiad da.

**Craffu ym Mwrdeistref Sirol Caerffili**
Mae pum Pwyllgor Craffu ym Mwrdeistref Sirol Caerffili:-

- Y Pwyllgor Craffu Addysg (yn cynnwys Ysgolion, Gwasanaethau Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Dysgu Gydol Oes).

- Y Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd (yn cynnwys Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden, Priffyrdd, Trafnidiaeth a Pheirianneg).
- Y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio (yn cynnwys Gwasanaethau Cynllunio)
- Y Pwyllgor Craffu Partneriaethau (yn craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach).
- Y Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau (yn cynnwys swyddogaethau Polisi a Gwasanaethau Corfforaethol y Cyngor).
- Y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol (yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant)

**A allaf fynychu cyfarfod Craffu a ble a phryd y maen nhw'n cael eu cynnal?**

- Mae'r holl gyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd oni bai bod materion cyfrinachol yn cael eu trafod.

- Cynhelir y cyfarfodydd yn Nhŷ Penallta, Swyddfeydd y Cyngor, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, CF82 7PG.

- Yn gyffredinol, cynhelir cyfarfodydd bob 6 wythnos ac fel arfer byddant yn dechrau am 5.30pm. Mae'r manylion ar gael ar wefan y Cyngor:-

www.caerffili.gov.uk

**Sut allaf gael Agendâu a Chofnodion Pwyllgorau Craffu?**
Mae papurau ar gael ar wefan y Cyngor, o'r dudalen gartref, dewiswch y pennawd **'Y Cyngor'** ar frig y dudalen, o dan bennawd y brif faner. Yna dewiswch **'Cyfarfodydd, Agendâu, Cofnodion ac Adroddiadau'**.

O'r dudalen hon mae gennych ddau opsiwn; Mae **'Calendr Cyfarfodydd'** yn caniatáu i chi fynd i ddyddiad y cyfarfod lle gallwch ddewis enw'r pwyllgor, a bydd hyn yn mynd â chi at y dogfennau ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

Yr ail ddewis yw mynd i **'Cofnodion, Agendâu ac Adroddiadau'** sy'n eich galluogi i chwilio ar y pwnc neu i ddefnyddio opsiwn chwilio uwch i deilwra'ch chwiliad i ystod ddyddiad gydag enw'r pwyllgor.

Os hoffech bori papurau ar gyfer pwyllgor craffu penodol, gallwch wneud hyn trwy ddewis **'Y Cyngor'** ar frig y dudalen we eto**..**

Yna, dewiswch **'Cynghorwyr a Phwyllgorau'** yna ewch i **'Pwyllgorau'** ac yna 'Pwyllgorau Craffu'**, cliciwch ar y ddolen i'r pwyllgor penodol y mae gennych ddiddordeb ynddo. Yna cewch hyd i opsiwn i 'edrych ar gyfarfodydd ac agendâu'r pwyllgor hwn'.**

**Sut alla'i gymryd rhan ym materion Craffu?**

- Mae craffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyngor.
- Os hoffech wneud cais i Bwyllgorau Craffu, cwblhewch y ffurflen briodol sydd ar gael ar wefan y Cyngor www.caerffili.gov.uk neu cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Democrataidd (gweler manylion cyswllt ar dudalen 3 y canllaw hwn).
- Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unol â phrotocol y cytunwyd arni (gweler atodiad 1).
- Os yw Cadeirydd y Pwyllgor yn cytuno i ystyried y mater, fe'ch cynghorir ynghylch y broses sydd i'w chynnal a dyddiad y cyfarfod.

**Beth sy'n digwydd mewn cyfarfod craffu?**

- Mae'n bwysig nodi bod cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn gyfarfodydd ffurfiol y Cyngor.
- Gall y Pwyllgor Craffu alw 'dystion arbenigol', gwrando ar ddatganiadau a gofyn cwestiynau i'r tystion hynny hefyd.
- Fodd bynnag, gall y Cyngor ond ofyn i drydydd parti fynychu pwyllgor craffu.
- Bydd pob tyst yn cael eu trin â chwrteisi a pharch a gwneir pob cwestiwn i dystion mewn ffordd drefnus o dan gyfarwyddyd y Cadeirydd. Mae hefyd yn bwysig nodi nad oes rhaid i unrhyw dyst ymateb i gwestiynau.

**Rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Craffu**

Bydd y Pwyllgor Craffu yn ystyried pob cais gan aelod o'r cyhoedd neu randdeiliaid. Unwaith y bydd y Pwyllgor Craffu wedi ystyried y cais, bydd yr aelod o'r cyhoedd neu randdeiliaid yn cael gwybod am y canlyniad. Bydd y penderfyniad yn seiliedig ar y meini prawf y cytunwyd arnynt (Atodiad 1).

Gall aelodau'r cyhoedd neu randdeiliaid benderfynu naill ai ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig neu siarad yng nghyfarfod y pwyllgor craffu. Caiff yr holl siaradwyr eu cyfyngu i 5 munud oni bai bod y Cadeirydd yn eu cynghori fel arall.

Os oes nifer o gynrychioliadau i siarad ar fater, bydd y Cadeirydd yn pennu nifer y siaradwyr, fel arfer hyd at uchafswm o dri. Nid yw hyn yn cynnwys ceisiadau gan Gynghorwyr Bwrdeistref Sirol Caerffili, a bennir gan gyfansoddiad y Cyngor.

**Trefn yr Ystafell**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gweithredu cynllun ystafell ar drefn cynhadledd. Bydd Aelodau'r Pwyllgor Craffu a'r Swyddogion Cefnogi yn eistedd mewn ffurf pedol o gwmpas tair ochr y bwrdd. Bydd yr Aelod Cabinet, Uwch Swyddogion yn eistedd gyda'i gilydd ar ben arall y bwrdd a bydd y Swyddog(ion) a thystion yn ymuno â nhw yn ystod y pynciau penodol dan drafodaeth.

Mae tabl swyddogion/tystion ar wahân, ardal gyhoeddus a bwrdd i'r wasg. Er mwyn cynorthwyo ymwelwyr i nodi pwy yw pwy, bydd gan bawb sydd o amgylch y bwrdd cyfarfod enw plac sy'n nodi eu henw a'u swydd.

**Staffio a Chymorth**

Mae Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd a staff Cyfreithiol yn darparu cefnogaeth yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu trwy ddarparu cyngor ac arweiniad a nodi'r cofnodion. Bydd Gwasanaethau Democrataidd yn cysylltu â thystion a swyddogion ac yn cynorthwyo wrth baratoi rhaglenni gwaith.

**Am ragor o wybodaeth am sut mae craffu yn gweithio o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac am gyflwyno eitemau i'w trafod, cysylltwch â:-**

**Y Tîm Gwasanaethau Democrataidd**
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**
**Tŷ Penallta**
**Parc Tredomen**
**Ystrad Mynach**
**Hengoed**
**CF82 7PG**

**E-bost: craffu@caerffili.gov.uk**

**Meini Prawf ar gyfer Ceisiadau am Adroddiad**

**Meini prawf - materion sydd eisoes ar y blaen-raglen waith**
Bydd y meini prawf canlynol yn cynorthwyo'r Pwyllgor wrth benderfynu a ellir cynnwys cais gan aelod o'r cyhoedd neu randdeiliad i roi tystiolaeth yn y pwyllgor craffu:-

- Mae'r cais yn cyfeirio at fater sydd eisoes ar flaen-raglen waith y pwyllgor craffu.
- Nid yw'r cais yn cael ei ystyried yn un flinderus, yn wahaniaethol neu mae ceisiadau tebyg wedi'u gwneud yn barod.
- Nid yw'r cais yn cael ei wneud i amlygu cwyn penodol (dylid ymdrin â chwynion yn unol â gweithdrefn gwyno'r Cyngor).
- Mae'r aelod o'r cyhoedd neu randdeiliad wedi rhoi tystiolaeth ar yr un mater o fewn y 12 mis diwethaf.

**Meini prawf - materion nad ydynt ar y blaen-raglen waith**
Bydd y pwyllgor craffu yn ystyried y cais yn seiliedig ar y meini prawf canlynol:-

- Mae'r mater o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor craffu.
- Cyfrifoldeb y pwyllgor craffu yw blaenoriaethu materion yn ôl yr amser sydd ar gael iddo a bydd yn defnyddio'r matrics blaenoriaethu atodedig i'w helpu i bennu'r blaenoriaethau.
- Nid yw'r cais yn cael ei ystyried yn un flinderus, yn wahaniaethol neu mae ceisiadau tebyg wedi'u gwneud yn barod.
- Nid yw'r cais yn cael ei wneud i amlygu cwyn penodol (dylid ymdrin â chwynion yn unol â gweithdrefn gwyno'r Cyngor).
- Nid yw'r pwyllgor craffu eisoes wedi ystyried y mater o fewn y 12 mis diwethaf.

**Trydydd Parti**
Os yw'r cais yn golygu bod sefydliad 3ydd parti yn bresennol, dylid nodi y gallai'r Cyngor ofyn i'r sefydliad, ond nid ei orfodi, i beidio â mynychu.

**Canlyniad**
Yn dilyn sylwadau gan y cyhoedd neu randdeiliaid, a'r trafodaethau, gall y pwyllgor craffu benderfynu ar y canlynol:-

- I newid, diwygio neu wneud argymhellion i adroddiad.
- I ymgymryd â gwaith craffu pellach ar y mater a chomisiynu adroddiad pellach neu ymgymryd â gweithgareddau eraill.
- I alw ar 'Unigolyn Dynodedig' i fynychu pwyllgor craffu yn y dyfodol.
- I sefydlu grŵp gorchwyl i gynnal adolygiad manwl o fater.

**Nodiadau Esboniadol**

**Person Dynodedig**
Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar bwyllgorau craffu awdurdodau lleol i graffu ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill yn ei ardal. Rhoddodd Adran 61 o'r Mesur bwerau i Weinidogion Cymru "ddynodi" unigolion a sefydliadau i fod yn destun craffu gan bwyllgorau craffu awdurdodau lleol. Ni fydd hyn yn dod i rym nes bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Gorchymyn Gweinidogol.

**Blinderus/Parhaus**
Mae penderfynu a yw cais yn flinderus yn ymarfer cydbwyso hyblyg, gan gymryd i ystyriaeth holl amgylchiadau'r achos. Nid oes prawf neu ddiffiniad sefydlog, a bydd yn aml yn hawdd ei adnabod. Y cwestiwn allweddol yw a yw'r cais yn debygol o achosi gofid, tarfu neu ddicter, heb unrhyw achos priodol neu gyfiawnhad.

**Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg**
Mae gwahaniaethu yn digwydd pan fo person A yn trin person B yn llai ffafriol ar sail gwahaniaethau go iawn neu ganfyddedig, cefndiroedd neu amgylchiadau unigol, o'u cymharu â sut y maent yn trin pobl eraill. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhestru'r grwpiau o bobl sydd â'r hawl i beidio â chael gwahaniaethu yn eu herbyn. Mae gan bobl sy'n perthyn i'r grwpiau hyn yr hyn a elwir yn nodweddion gwarchodedig. Y rheiny yw:

- anabledd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- crefydd neu gred
- cyfeiriadedd rhywiol
- hil
- hunaniaeth rhyw ac ailbennu rhywedd
- oed
- priodas neu bartneriaeth sifil (o ran cyflogaeth yn unig)
- rhyw

Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws cyfreithiol cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg yng Nghymru ac mae'n rhoi hawliau cyfreithiol i unigolion allu byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. Ni ddylid trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gynnal busnes y Cyngor.

Mae grwpiau eraill yn dod o dan ddeddfwriaeth a rheoliadau amrywiol Confensiynau'r Cenhedloedd Unedig, yr UE, y DU a Llywodraeth Cymru, e.e. ar Hawliau Dynol.

Rhaid asesu holl bolisïau, gweithdrefnau a phenderfyniadau'r Cyngor er mwyn sicrhau bod y materion uchod wedi'u datblygu, eu hymgynghori arnynt a'u cymeradwyo'n briodol. Dylai'r adran Goblygiadau Cydraddoldeb mewn adroddiadau gyfeirio at y broses hon.

Mae gan Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2016-2020 y Cyngor fwy o fanylion am y materion hyn ac mae ar gael, ynghyd ag ystod eang o ddogfennau cyfarwyddyd penodol (megis asesiadau effaith, cwynion, caffael ac ati) ar gyfer aelodau etholedig ac aelodau staff ar y Porthol Mewnrwyd Cydraddoldeb a'r Gymraeg.